Dyma'r canllawiau ar gyfer:

# Sinema Cymru

## Rhaglen Ffilmiau Cymraeg

**Cynnwys**


Cyflwyniad ....................................................................................2
Sut mae Sinema Cymru yn cael ei ariannu? ........................................3
Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?.....................................4
Meini Prawf Cymhwysedd ............................................................4
Blaenoriaethau Ariannu ...............................................................5
Beth nad ydym yn gallu ei ariannu ...............................................5
Sut ydw i'n gwneud cais? ..................................................................6
Dyddiadau cau ..............................................................................6
Y Broses Ymgeisio .........................................................................6
Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu .........................8
Cadarnhad o'ch cais am gyllid datblygu ...........................................8
Alla i gael cymorth gyda fy nghais? ...............................................9
Manylion Cyswllt ..........................................................................9
Sut mae penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud? .........................11
Meini Prawf Asesu ........................................................................11
Y Broses Asesu .............................................................................12
Amserlen Gwneud Penderfyniadau Dangosol ..................................13
Adborth .......................................................................................13
Ailgyflwyno prosiectau aflwyddiannus ...........................................14
Costau Mynediad ..........................................................................14
Ffioedd y Cynhyrchydd / Ffioedd Cynhyrchu ...................................15

Canllawiau’r Cynllun Cyllid ....................................................15
Sut ydw i’n gweithio gyda Phartneriaid y Rhaglen os dyfernir cyllid i mi? ....................................................16
Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid? ....................................17
Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales ....................................18

## Cyflwyniad

Croeso i’r canllawiau ar gyfer Sinema Cymru, sef cydweithrediad newydd cyffrous rhwng S4C, Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru, a Ffilm Cymru i gefnogi ffilmiau Cymraeg sydd â’r potensial i fod ar y sgrin fawr yn rhyngwladol. Drwy'r rhaglen hon, byddwn yn cefnogi ffilmiau Cymraeg gwreiddiol gydag actorion byw sydd wedi’u bwriadu ar gyfer y sinema ac sy’n cael eu harwain gan awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr o Gymru yn enedigol neu sydd wedi’u lleoli yng Nghymru (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru).

Os ydych chi'n chwilio am gyllid ar gyfer ffilm ddogfen neu ffilm wedi'i hanimeiddio yn y Gymraeg, neu ar gyfer ffilmiau mewn ieithoedd eraill, edrychwch ar gronfeydd eraill Ffilm Cymru neu ddarllen galwadau diweddaraf S4C a Cymru Greadigol ar eu gwefannau.[1][2][3]

O dan raglen Sinema Cymru, bydd o leiaf tair ffilm yn cael eu datblygu bob blwyddyn, gyda'r bwriad y bydd un o'r ffilmiau hynny'n cael ei dewis ar gyfer cyllid cynhyrchu.

Nod Sinema Cymru yw rhoi ffilmiau Cymraeg ar y map a helpu ffilmiau Cymraeg annibynnol sy'n feiddgar, yn anghonfensiynol ac sydd â'r potensial i gael eu rhyddhau mewn sinemâu yn rhyngwladol. Mae'r rhaglen yn awyddus iawn i hyrwyddo lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli wrth bortreadu'r Gymraeg a gwthio ffiniau o ran yr hyn rydyn ni'n ei alw'n ffilm Gymraeg.

Os yw unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau hyn, neu os hoffech chi gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â ni (gweler y Manylion Cyswllt isod).

## Sut mae Sinema Cymru yn cael ei ariannu?

Mae Sinema Cymru 2023 yn cael ei ariannu drwy £1 miliwn o Gronfeydd Cyfalaf gan Cymru Creadigol Llywodraeth Cymru, a £1 miliwn gan S4C.

Bydd hyd at £1.6 miliwn ar gael i ffilm a fydd yn cael ei chynhyrchu, ar gyfer y costau cynhyrchu yn unig (heb gynnwys costau datblygu). Bydd £30k ar gael i bob ffilm a fydd yn cael ei datblygu dan y rhaglen, gyda chymorth ychwanegol ar gael i gefnogi mynediad a datblygiad proffesiynol parhaus cyfranogwyr y rhaglen.

[1] https://ffilmcymruwales.com/cy/funding-and-training/datblygu-chynhyrchu-ffilm
[2] https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/24265/comisiynu/
[3] https://www.creative.wales/funding-and-support/production-funding

# Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?

Mae gan S4C a Llywodraeth Cymru baramedrau cyllido, ac mae rhaglen Sinema Cymru yn adlewyrchu'r rhain. Yn ogystal â hyn, mae'r partneriaid wedi llunio'r rhaglen mewn ymateb i anghenion y sector ffilm yng Nghymru.

**Meini Prawf Cymhwysedd**

Er mwyn gwneud cais am y rhaglen hon, rhaid i chi:

- Cynnig ffilm Gymraeg wreiddiol gyda'r bwriad o'i dangos mewn sinemâu a sicrhau bod y cynnig yn ymarferol o fewn cyllideb o hyd at £2 filiwn (ond dim llai na £350,000).
- Cael rhywun sy'n enedigol o Gymru neu wedi'i leoli yng Nghymru fel yr awdur, y cynhyrchydd neu'r cyfarwyddwr arweiniol ond dim mwy na phedwar aelod arweiniol yn gyffredinol. Gallwch wneud cais fel unig awdur (heb gynhyrchydd neu gyfarwyddwr) neu fel awdur a chynhyrchydd neu dîm ysgrifennu, cynhyrchu a chyfarwyddo. Mae'n bwysig cael y tîm iawn ar gyfer eich prosiect a gallwn eich helpu i ddod o hyd i gynhyrchwyr a chyfarwyddwyr os oes angen.
- Cael awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr ar eich prosiect sydd dros 18 oed ac nad ydynt mewn addysg amser llawn.
- Bod yn berchen ar yr hawliau yn y prosiect (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol), neu fod yn y broses o wneud hynny.
- Rhywfaint o brofiad perthnasol o weithio yn y diwydiant ffilm a theledu yn eich tîm (nid ydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm fod â phrofiad o'r sgrin ond byddwn yn chwilio am gydbwysedd profiad ar draws aelodau'r tîm).
- Gallu ymrwymo i natur labordy'r rhaglen, lle bydd y broses ddatblygu yn fwy dwys na'r broses arferol ar gyfer datblygu ffilm, gyda'r nod o gyrraedd y cam cynhyrchu mewn llai na blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, bydd rhaglen Sinema Cymru yn blaenoriaethu prosiectau sy'n bodloni un neu fwy o'r canlynol:

**Blaenoriaethau Ariannu**

- Ffilmiau sy'n portreadu Cymru a'r iaith Gymraeg mewn ffyrdd newydd ac anghonfensiynol.
- Ffilmiau sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau o Gymru sy'n nodi bod ganddynt nodwedd warchodedig a/neu eu bod o anfantais economaidd-gymdeithasol[4].
- Ffilmiau sy'n cynrychioli profiadau bywyd amrywiol ar y sgrin.
- Ffilmiau sy'n cymryd risgiau gwybodus ar dalent newydd, gyda chynnwys neu ffurf y byddai'r sector masnachol yn cael trafferth ei gefnogi.

Byddwn hefyd yn awyddus i weld dosbarthiad daearyddol ledled Cymru o'r gwneuthurwyr ffilmiau rydym yn eu cefnogi.

**Beth nad ydym yn gallu ei ariannu**

Ni allwn ariannu'r canlynol gyda'r gronfa hon:

- Gwaith sydd wedi'i fwriadu'n bennaf i gipio ffurf gelfyddydol arall, fel theatr ffilm, digwyddiadau chwaraeon neu gerddoriaeth
- Ffilmiau byr (neu ffilmiau sy'n fyrrach na 70 munud. Edrychwch ar ein ffrydiau cyllido eraill).
- Ffilmiau wedi'u hanimeiddio neu ffilmiau dogfen (edrychwch ar ein ffrydiau cyllido eraill).
- Gwaith gosod artist.
- Gwaith nad yw'n waith clywedol yn bennaf.

[4] I gael rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb yma

- Gwaith a fwriedir yn bennaf ar gyfer teledu.
- Gwaith nad yw'r rhan fwyaf ohono drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwaith sydd eisoes wedi dechrau cael ei gynhyrchu.

Y rheswm am hyn yw bod cyllid arall ar gael gan ddarlledwyr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymru Greadigol a sefydliadau eraill i gefnogi'r uchod.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Oherwydd ein bod yn rheoli arian cyhoeddus, rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeisydd a bod gennym brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol ac mae'n rhaid i chi wneud cais drwy gyflwyno ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan i applications@ffilmcymruwales.com ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol erbyn y dyddiad cau (oni chytunir ar fformat arall i gefnogi mynediad).

**Dyddiadau cau**

Y dyddiad cau ar gyfer rhaglen Sinema Cymru eleni yw:

*Hanner dydd 3 Tachwedd 2023*

**Y Broses Ymgeisio**

Gall ymgeiswyr wneud cais am hyd at £30,000 o gyllid datblygu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys ffioedd ar gyfer yr awdur, y cyfarwyddwr (neu awdur/cyfarwyddwr) a'r cynhyrchydd (hyd yn oed os nad ydych chi wedi sefydlu tîm llawn o awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr eto) yn ogystal ag unrhyw beth arall rydych chi'n teimlo sy'n hanfodol er mwyn datblygu eich syniad yn gynnig sinematig cryf.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn gofyn i chi nodi:

a) Cefnogaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i ddatblygu'r prosiect pe na bai'r gyllideb yn broblem. *Er enghraifft, cynhyrchydd llinell ffilm profiadol i'ch helpu gyda'r gyllideb a'r amserlenni.*
b) Y cymorth fyddai'n ddefnyddiol i chi a'ch tîm gyrraedd y lefel nesaf yn eich gyrfaoedd. *Er enghraifft, mentora, presenoldeb yn y farchnad ffilmiau, neu leoliad ar set gyda chyfarwyddwr ffilm profiadol.*
c) Y gefnogaeth fydd ei hangen arnoch chi a'ch tîm i gymryd rhan lawn yn y rhaglen. *Gyda hyn, rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau y gallai unigolion eu hwynebu yn ystod neu ar ôl y broses ymgeisio. Er enghraifft, efallai y bydd costau gofal plant parhaus, gwersi Cymraeg, neu'r angen am gyfieithydd ar y pryd.*

Mae potensial i ni eich cefnogi gyda chyllid ychwanegol neu gymorth uniongyrchol yn y meysydd hyn, a byddwn yn trafod hyn yn fanwl gyda chi os dyfernir cyllid datblygu i chi.

Mae Sinema Cymru yn rhaglen datblygu talent yn ogystal â rhaglen ariannu ffilmiau. Felly, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn tynnu sylw at unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus y gallwn helpu gydag ef yn ogystal ag anghenion y prosiect ei hun.

Mae croeso i ymgeiswyr drafod eu ceisiadau gydag aelod o dîm Ffilm Cymru cyn gwneud cais, ond nid yw'n hanfodol eu bod yn gwneud hynny.

Gall ceisiadau gael eu gwneud gan unigolion neu gan gynhyrchydd neu gwmni cynhyrchu ond byddem fel arfer yn disgwyl i gynhyrchwyr wneud y cais.

Mae'n bwysig eich bod yn ymateb i bob cwestiwn ar y ffurflen gais oni bai ei fod yn ddewisol, gan na fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hasesu. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gofyn i chi lenwi ac ailgyflwyno eich cais.

**Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu**

Bydd gofyn i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch cais am gyllid datblygu:

- Sgript ar gyfer eich prosiect NEU grynodeb o'r stori sy'n ddim mwy na 3000 gair (neu bum tudalen A4) a sampl ysgrifennu hyd llawn gan yr awdur (ee ar gyfer pennod deledu lawn, ffilm, drama). Os yw'r sampl yn un fer, llai nag 20 tudalen, yna dylid darparu dau sampl.
- CVs ar gyfer eich tîm craidd a dolen weithredol at waith blaenorol mwyaf perthnasol y cyfarwyddwr (os yw wedi'i atodi)
- Manylion y cytundebau opsiwn i brynu hawliau/hawliau sylfaenol os yw'n berthnasol
- Copi o bolisi cynaliadwyedd, polisi bwlio ac aflonyddu a pholisi amrywiaeth a chynhwysiant eich cwmni (os ydych chi'n gwneud cais fel cwmni)

Bydd unrhyw ddeunyddiau gweledol, fideo arddangos y cyfarwyddwr, taflen teimladau neu ragluniau yn cryfhau eich cais.

Y ffordd orau o gyflwyno dogfennau ategol yw fel un ddolen i lwyfan storio ar-lein a ddarperir yng nghorff eich cais, yn hytrach nag fel atodiadau unigol.

Ni fydd eich cais yn gyflawn nes bydd yr holl eitemau hyn wedi cael eu cyflwyno ynghyd â'r ffurflen gais.

**Cadarnhad o'ch cais am gyllid datblygu**

Byddwch chi'n cael cadarnhad ein bod wedi cael eich cais o fewn pythefnos i'w gyflwyno. Yn y cadarnhad hwn, byddwch hefyd yn cael dolen dros e-bost i lenwi ein ffurflen monitro amrywiaeth, a ddylai gael ei llenwi gan yr holl awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr

arweiniol ar y prosiect bryd hynny. Mae ymateb ‘mae’n well gen i beidio â dweud’ ar gael ar gyfer pob cwestiwn ond mae’r atebion rydym yn eu cael yn ein helpu i ddod o hyd i fylchau mewn cynrychiolaeth a chymryd camau i fynd i’r afael â nhw. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam rydym yn gofyn am yr wybodaeth hon, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb[5].

**Alla i gael cymorth gyda fy nghais?**

Mae cymorth ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion byddar neu drwm eu clyw, pobl anabl neu niwroamrywiol a phobl sydd wedi colli eu golwg. Er enghraifft, gallwn dalu am ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, darparu cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddeciau sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut gallwn ni helpu cyn dyddiad cau'r cais (gweler y Manylion Cyswllt isod).

**Manylion Cyswllt**

Rhaid anfon ceisiadau wedi’u cwblhau dros e-bost at applications@ffilmcymruwales.com oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull arall o’u cyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gais am fynediad, cysylltwch â:

Gwenfair Hawkins, Swyddog Gweithredol Datblygu a Chynhyrchu, gwenfair@ffilmcymruwales.com

Ihsana Feldwick, Cydlynydd Talent: ihsana@ffilmcymruwales.com

[5] https://ffilmcymruwales.com/cy/ffilm-i-bawb

## Sut mae penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud?

### Meini Prawf Asesu

Byddwn yn ystyried y canlynol wrth asesu a ddylid cynnig cyllid i brosiect:

- Ansawdd a gwreiddioldeb y prosiect a gallu'r tîm i wireddu eu gweledigaeth greadigol
- A fydd y prosiect yn cael effaith sylweddol ar yrfaoedd a chwmnïau gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru
- A yw'r prosiect yn ymateb i un neu fwy o'n Blaenoriaethau Ariannu
- Hyfywedd y prosiect (a yw lefel y gyllideb yn briodol ar gyfer y deunydd, y cyllid sydd ar gael, a phrofiad y tîm; a yw'r amserlen yn realistig)
- Dealltwriaeth y tîm o gynulleidfa eu prosiect a'u cynllun i gyrraedd y gynulleidfa honno
- Y potensial i gefnogi sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru, gan fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant ac arloesedd busnes ehangach.
- Addasrwydd y prosiect ar gyfer arian cyhoeddus. A ellid ei ariannu'n llawn yn fasnachol? A yw'r prosiect yn gallu talu pawb am eu gwaith? Gweler Gofynion y Gyllideb isod.
- Y tebygolrwydd y bydd y prosiect yn cael dangosiad ystyrlon mewn sinemâu (nad yw'n cael ei hunan-gyllido)
- A yw'r prosiect yn debygol o ddarparu elw da ar fuddsoddiad yn erbyn cyllid Llywodraeth Cymru (gyda £3 o wariant yng Nghymru yn ofynnol ar gyfer pob £1 o gyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru)

- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau. Byddwn yn ystyried a yw'r prosiect yn ychwanegiad unigryw at gasgliad Sinema Cymru o brosiectau yn yr iaith Gymraeg.

**Y Broses Asesu**

Bydd penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud tua deg wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel o gynrychiolwyr o Ffilm Cymru, Cymru Greadigol ac S4C.

Bydd Ffilm Cymru yn ysgrifennu adroddiad asesu ar bob prosiect a gall ddefnyddio ymgynghorwyr allanol yn ogystal â'r staff a nodwyd uchod er mwyn ehangu'r arbenigedd a'r profiad uniongyrchol sy'n cyfrannu at yr asesiad hwnnw.

Yn y broses o ysgrifennu'r adroddiad, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth neu ddeunyddiau gennych chi. I gael gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud gyda data ymgeiswyr, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd[6].

Bydd Ffilm Cymru yn rhoi gwybod i chi o fewn tri diwrnod gwaith i unrhyw ddyddiad asesu a fu eich cais yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau dros e-bost a phan fydd prosiect yn aflwyddiannus, bydd esboniad byr yn cael ei gynnwys.

[6] https://ffilmcymruwales.com/sites/default/files/2020-10/Privacy%20Policy%202018.pdf

**Amserlen Gwneud Penderfyniadau Dangosol**

| | |
|---|---|
| Cadarnhad o dderbyn y cais am gyllid datblygu | O fewn pythefnos |
| Penderfyniadau ariannu | O fewn 10 wythnos o’r dyddiad cyflwyno cais. Byddwch chi’n cael gwybod o fewn 3 diwrnod gwaith i ddyddiad yr asesiad. |

**Adborth**

Os na fyddwch chi’n llwyddo i gael cyllid, gallwch ofyn am adborth cryno dros y ffôn neu alwad fideo. Rydym yn derbyn llawer iawn o geisiadau ac nid oes gennym yr adnoddau i roi adborth manwl i bob prosiect sy’n gwneud cais i ni.

Mae Sinema Cymru yn rhaglen gyllido ddetholus yn hytrach nag awtomatig a fydd ond yn ariannu tair gwobr datblygu y flwyddyn. Bydd ceisiadau’n cael eu gwrthod am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Gwreiddioldeb y deunydd
- Parodrwydd y tîm i greu ffilm ar y lefel hon
- Sut mae’r prosiect yn cyd-fynd â’n blaenoriaethau cyllido
- A ellid ariannu’r prosiect drwy ddulliau eraill
- Unrhyw elfen arall sy’n ymwneud â’n Meini Prawf Asesu

Nid oes rheidrwydd ar y tîm i ddefnyddio unrhyw adborth a ddarperir gan Ffilm Cymru ac nid yw defnyddio’r adborth yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno prosiectau aflwyddiannus

Gellir ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol i ffrydiau cyllido eraill Ffilm Cymru neu i flynyddoedd dilynol cynllun Sinema Cymru gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan Ffilm Cymru.

Dylai'r prosiectau sy'n cael eu ail-gyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy'n mynd i'r afael ag unrhyw adborth blaenorol a gafwyd gan Ffilm Cymru: er enghraifft, ailysgrifennu neu newid cynhyrchydd.

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un prosiect, rhaid i chi nodi'n glir elfennau diwygiedig y prosiect yn y cais.

Mae'n rhaid trafod ailgyflwyno prosiectau sydd wedi cael cynnig cyllid ond sydd wedi dod i ben gydag aelod o'r tîm.

## Costau Mynediad

Rydym yn eich annog i gyllidebu ar gyfer costau mynediad sy'n galluogi'r cynhyrchiad i gefnogi unigolion byddar, anabl a niwroamrywiol i gymryd rhan yn eich cynhyrchiad, ac sy'n helpu i wneud eich cynhyrchiad yn fwy cynhwysol yn gyffredinol. Er enghraifft, gallech ystyried cymorth ar gyfer gofal plant, costau darparu toiledau hygyrch a chyfieithwyr ar y pryd, neu gostau a fyddai fel arall yn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer sector sgrin cynaliadwy, sy'n cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant ac arloesedd busnes. Os ydych chi'n llwyddo i gael cyllid gennym ni, byddwn yn eich helpu i ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd sy'n gweithio gyda chryfderau a chyfyngiadau unigryw eich ffilm.

**Ffioedd y Cynhyrchydd / Ffioedd Cynhyrchu**

Mae'r ffioedd yn amrywio’n sylweddol yn ôl prosiect a phrofiad y tîm felly ni allwn bennu ffioedd yma. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i ffioedd y cynhyrchydd a/neu’r ffioedd/gorbenion cynhyrchu fod yn gymesur â’r gyllideb arfaethedig ac i ffioedd y Cynhyrchydd gyd-fynd â ffioedd y Cyfarwyddwr a’r Awduron. Os byddwn yn penderfynu cefnogi’r prosiect, byddwn yn trafod y ffioedd gyda’r tîm ac, er bod eithriadau, ar gyfartaledd byddai ffioedd y cynhyrchydd/cynhyrchu fel arfer yn 7-8% ond yn cael eu capio ar 10% o gostau cynhyrchu uniongyrchol (hynny yw, cyllideb cynhyrchu net o ffioedd y cynhyrchydd a’r ffioedd/gorbenion cynhyrchu).

**Canllawiau’r Cynllun Cyllid**

Nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr gasglu arian cynhyrchu ychwanegol o dan Sinema Cymru ond mae denu cyllid ychwanegol yn cael ei groesawu (yn amodol ar gymeradwyaeth partneriaid y rhaglen).

Nid ydym yn annog gohirio unrhyw ffioedd. Os yw eich cynllun cyllid yn cynnwys credyd treth ffilm y DU, dylech ddarparu cyfrifiad cychwynnol o hyn yn eich cais, ynghyd ag unrhyw gymhellion neu gymorthdaliadau eraill sydd ar gael i’r cynhyrchiad. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi cynhyrchwyr i gadw budd-dal credyd treth y DU i gefnogi cynaliadwyedd a thwf eu cwmni yn y dyfodol, yn amodol ar gymeradwyaeth yr holl gyd-gyllidwyr.

## Sut ydw i'n gweithio gyda Phartneriaid y Rhaglen os dyfernir cyllid i mi?

Ffilm Cymru fydd eich prif bwynt cyswllt drwy gydol y rhaglen ond bydd yn gweithio'n agos gyda Chymru Greadigol a S4C, gan rannu deunyddiau ar eich rhan.

Pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chi, byddwn yn llunio 'ffurflen partneriaeth' gyda chi, a fydd yn sicrhau ein bod yn deall sut y gallwn eich cefnogi i wneud eich gwaith gorau. Gallai hyn olygu ein bod yn deall i beidio â'ch ffonio pan fyddwch chi'n nôl eich plant o'r ysgol, neu, os yw'n bosibl, cysylltu â chi dros e-bost yn hytrach na dros y ffôn oherwydd problemau clyw neu fyddardod. Ni fydd yn orfodol i chi rannu unrhyw ran o'r wybodaeth hon.

Mae Ffilm Cymru yma i'ch cefnogi drwy'r broses o gynhyrchu ffilm annibynnol, sy'n aml yn anodd. Rydym wedi gweithio ar lawer o ffilmiau annibynnol a gallwn eich helpu i osgoi rhwystrau cyffredin, gan roi cyflwyniadau ac arweiniad a fydd yn eich helpu i ddod â'ch gweledigaeth yn fyw ac i gynulleidfaoedd.

Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i reoli cronfeydd y llywodraeth yn effeithiol ac i weithio at dwf tymor hir y sector sgrin ac nid prosiectau unigol yn unig. Fel y rhan fwyaf o gyllidwyr, bydd partneriaid y rhaglen yn cymeradwyo elfennau allweddol y rhaglen ac yn darparu adborth golygyddol a strategol fel y nodir yn eich cytundebau cyllido.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi ystyried sut gallwch chi gefnogi arferion cynaliadwy a chynhwysol yn y sector, gan gynnig cyngor a chefnogaeth ar feysydd fel hyfforddeion, cynaliadwyedd amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn cyflawni rhwymedigaethau eich cytundeb, gan ganiatáu digon o amser ar

gyfer adolygiadau, adborth a chymeradwyaeth gan bartneriaid y rhaglen.

**Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid?**

Byddwch chi’n cael cytundeb datblygu a fydd yn cynnwys cymeradwyaeth safonol ar gyfer elfennau allweddol y prosiect a hawl cynnig cyntaf am gyfnod penodol i S4C fuddsoddi yn y gwaith o gynhyrchu’r ffilm.

Mae prosiectau sy’n derbyn cyllid datblygu yn rhwym wrth gytundeb cyllido gyda Ffilm Cymru sy’n adlewyrchu cyllid Cymru Greadigol a fydd yn cynnwys amserlen dalu y cytunwyd arni a thelerau ac amodau llawn y cyllid.

## Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales

Mae'r Telerau Busnes Safonol hyn ("Telerau Safonol") yn rhan o unrhyw gytundeb cyllido ("Cytundeb Cyllido"), a dylid eu darllen ar y cyd ag unrhyw gytundeb o'r fath a gyhoeddir gan CBC Ffilm Cymru (FfCW) mewn perthynas â'ch prosiect ("Prosiect"). Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, yna'r Cytundeb Cyllido fydd drechaf.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Felly, mae FfCW yn cadw'r hawl i adolygu cynlluniau cyllido a/neu newid ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i feini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod neu gostau sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r canlynol:
   - Y broses ymgeisio;
   - Penderfyniad FfCW i beidio â rhoi dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Delio â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau yn cael eu hystyried oni bai fod gan yr ymgeisydd achos da dros gredu nad oedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais yn cael eu dilyn neu eu bod wedi cael eu defnyddio mewn modd a fyddai'n niweidio canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW ar gael ar ein gwefan.

4. Nid yw’n ofynnol i FfCW dalu unrhyw gyllid nes y bydd wedi derbyn copi llawn o’r Cytundeb Cyllid a nes y bydd unrhyw rag-amod fel y’i diffinnir yn y Cytundeb Cyllid wedi’i fodloni.

5. Mae’n ofynnol i FfCW dynnu sylw at wybodaeth am nifer y ceisiadau mae’n eu cael, a’r gwobrau a ddyfernir: bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys enw’r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw’r prosiect a manylion y prosiect.

6. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi’r hawl i aelodau’r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol sy’n cael ei dal gan FfCW ar ran ein cyllidwyr. Felly, os byddwch chi’n dewis gwneud cais i FfCW, mae’n bosibl y bydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, oni bai fod sail ddigonol dan y Ddeddf i’w dal yn ôl, fel gyda gwybodaeth sy’n fasnachol sensitif, er enghraifft.

7. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y diwydiant sgrin. Byddwn yn gofyn i bob tîm o gyfranogwyr lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth dienw ac yn gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau amrywiaeth a chynhwysiant i adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych chi’n ei ddarparu bob blwyddyn, wedi’i gyfuno â data arall am y cais a’r dyfarniad, fel y nodir ymhellach yn ein Polisi Preifatrwydd: http://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/system/. Mae FfCW yn mynnu bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i wella amrywiaeth a chynhwysiant eu gwaith yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 (www.equalityhumanrights.com).

8. Mae FfCW yn dosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chronfeydd cyfalaf gan Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar y cyllid a

dderbynnir, bydd angen i'r rheini sy'n cael y cyllid gydnabod FfCW a Chyngor Celfyddydau Cymru (gyda chredyd cyfatebol yn cael ei roi i'r Loteri Genedlaethol) a/neu Lywodraeth Cymru ym mhob deunydd llafar ac ysgrifenedig/wedi'i gyhoeddi sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys defnyddio logos, fel y'u darparwyd.

9. Gall FfCW ddal dyfarndal yn ôl neu ei adhawlio dan yr amgylchiadau canlynol:
   - os yw'r cais wedi cael ei lenwi'n anonest neu gyda gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, boed hynny'n fwriadol neu'n ddamweiniol;
   - os yw'r sawl sy'n cael y dyfarniad yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus o dan anfantais y prosiect, ac
   - unrhyw doramod arall fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Cyllido.